Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o drefniadau rheoli risg corfforaethol yng Nghyngor Sir Caerfyrddin

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 5105A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Cipolwg ar yr archwiliad 4

Yr hyn y gwnaethom edrych arno 4

Pam mae hyn yn bwysig 4

Yr hyn yr ydym wedi ei ganfod 4

Yr hyn yr ydym yn ei argymell 5

Adroddiad manwl

Ein canfyddiadau

Ceir meysydd i'w gwella o hyd yn nhrefniadau rheoli risg y Cyngor, sy'n cyfyngu ei allu i ddangos sut mae ei ddull yn cynorthwyo'r gwaith o gyflawni ei amcanion strategol 6

Nodi risgiau 6

Rheoli risgiau 7

Monitro ac adrodd risgiau 9

Adolygu ei drefniadau 10

Ein hargymhellion i'r Cyngor 11

Atodiadau

Atodiad 1 – Cwmpas a dulliau 13

Atodiad 2 – Cwestiynau a meini prawf archwilio 14

Atodiad 3 – Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor yn erbyn argymhellion 2019 17

# Adroddiad cryno

## Cipolwg ar yr archwiliad

### Yr hyn y gwnaethom edrych arno

Rheoli risg i lywodraeth leol yw'r broses o nodi, asesu a lliniaru risgiau a allai effeithio ar gyflawni amcanion strategol cynghorau.[1] Yn yr adolygiad hwn, fe wnaethom edrych ar ba un a yw trefniadau rheoli risg corfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin yn cefnogi cyflawniad ei amcanion strategol. Mae hyn yn cynnwys nodi, rheoli, monitro ac adrodd risgiau. Ni wnaethom edrych ar reoli risg ar lefel adrannau neu brosiect. Fe wnaethom hefyd adolygu cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r chwe argymhelliad a wnaed yn ein hadroddiad yn 2019.[2]

### Pam mae hyn yn bwysig

Mae rheolaeth risg effeithiol mewn llywodraeth leol yn bwysig gan y gall helpu i wella cynllunio a blaenoriaethu strategol, sicrhau y gall gwasanaethau barhau i gael eu darparu, ac y gall cynghorau gyflawni eu hamcanion strategol. Heb drefniadau rheoli risg effeithiol, gallai cyngor fethu cyfleoedd i wella canlyniadau i'w trigolion. Dylai rheolaeth risg effeithiol helpu cynghorau i ymateb mewn ffordd ystwyth i'r heriau sy'n eu hwynebu. Mae rheoli risg yn rhan hanfodol o lywodraethu ac arweinyddiaeth, ac yn hollbwysig i sut y mae'r sefydliad yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli ar bob lefel.[3]

### Yr hyn yr ydym wedi ei ganfod

Mae'n eglur bod arweinwyr uwch yn Sir Gaerfyrddin yn pwysleisio pwysigrwydd rheoli risgiau corfforaethol. Yn gadarnhaol, mae'r Cyngor wedi adolygu a gwerthuso ei drefniadau yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw wedi ymgorffori argymhellion blaenorol yn llawn eto. Mae hyn yn golygu bod ein harchwiliad wedi dod o hyd i feysydd tebyg i'w gwella i'r rhai y tynnwyd sylw atynt mewn adolygiadau blaenorol. Er enghraifft, ceir cwmpas o hyd i gryfhau sut mae'r Cyngor yn nodi'r risgiau mwyaf arwyddocaol i gyflawni ei amcanion strategol.

[1] O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n rhaid i gynghorau yng Nghymru osod a chyhoeddi amcanion llesiant. I'r mwyafrif o gynghorau, mae'r rhain bellach wedi'u mabwysiadu fel amcanion strategol y sefydliad.

[2] Archwilio Cymru (2019) Cyngor Sir Caerfyrddin – Arolwg o Drefniadau Rheoli Risg

[3] Llywodraeth y DU (2023) Y Llyfr Oren – Rheoli Risg – Egwyddorion a Chysyniadau

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd yn mynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol yn ymwneud â rheoli risg, ond ceir meysydd i'w gwella o hyd. Mae ein hargymhellion blaenorol bellach wedi'u disodli gan y pedwar argymhelliad yn yr adroddiad hwn. Mae'r rhain yn cwmpasu sut mae'r Cyngor yn nodi risgiau, yn rheoli risgiau, yn monitro ac yn adrodd am risgiau, a sut mae'n gwerthuso ei drefniadau.

# Adroddiad manwl

## Ein canfyddiadau

### Ceir meysydd i’w gwella o hyd yn nhrefniadau rheoli risg y Cyngor, sy’n cyfyngu ei allu i ddangos sut mae ei ddull yn cynorthwyo’r gwaith o gyflawni ei amcanion strategol

### Nodi risgiau

**Y broses o nodi a chofnodi risgiau posibl a allai effeithio ar gyflawni amcanion y Cyngor yw nodi risgiau.**

1 **Mae strategaeth a phecyn cymorth rheoli risg y Cyngor yn gynhwysfawr.** Mae Strategaeth Rheoli Risg a Chynllunio Wrth Gefn y Cyngor yn cwmpasu’r cyfnod 2018-2022. Mae gan y Cyngor becyn cymorth rheoli risg hefyd. Mae’r dogfennau hynny yn nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau eglur ac yn pwysleisio swyddogaeth bwysig rheoli risg o ran helpu’r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol. Ar adeg ein hadolygiad, roedd y Cyngor yn datblygu strategaeth ddiwygiedig i’w mabwysiadu yn ddiweddarach yn 2025.

2 **Mae’r Cyngor yn cymryd camau i ddangos sut mae risgiau yn cyd-fynd a’i amcanion strategol**. Mae rhan o ddiffiniad y Cyngor o risg[4] yn pwysleisio pwysigrwydd nodi risgiau o safbwynt eu heffaith posibl ar gyflawni ei amcanion strategol. Mae’r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau ar gyfer gwneud hyn yn ddiweddar, er enghraifft, trwy ei gwneud yn ofynnol i swyddogion nodi’r amcan llesiant perthnasol. Fodd bynnag, ar adeg ein hadolygiad, nid oedd y Cyngor wedi nodi hyn ar gyfer risgiau corfforaethol presennol. Mae hyn yn bwysig i helpu’r Cyngor i nodi ei risgiau mwyaf strategol yn eglur.

3 **Mae geiriad llawer o risgiau corfforaethol yn anghyson â gofynion ei becyn cymorth rheoli risg**. Nid yw disgrifiadau risg y Cyngor yn nodi’r achos a’r canlyniad yn gyson. Mae hyn yn bwysig i greu cyd-ddealltwriaeth o’r achos sydd wrth wraidd risgiau. Mae hefyd yn helpu i gynorthwyo’r gwaith o nodi camau rheoli neu liniaru perthnasol sy’n cyd-fynd â dull parodrwydd i dderbyn risg y Cyngor.

4 **Mae dull nodi risgiau’r Cyngor yn arwain at nifer fawr o risgiau strategol.** Roedd cofrestr risgiau corfforaethol y Cyngor a gyflwynwyd i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mawrth 2025 yn cynnwys 45 o risgiau. Er ei fod efallai’n adlewyrchu ymgais i fod yn dryloyw ac yn gynhwysfawr, gallai’r nifer fawr hon o risgiau corfforaethol effeithio ar yr adnoddau sydd eu hangen i flaenoriaethu, asesu ac adolygu’r risgiau hynny. Yn hollbwysig, gallai hefyd effeithio ar allu’r Cyngor i asesu effeithiolrwydd sut mae’n rheoli’r risgiau hynny.

[4] Mae Pecyn Cymorth Rheoli Risg y Cyngor yn diffinio risg naill ai fel ‘y bygythiad y bydd digwyddiad neu weithred yn cael effaith niweidiol ar allu sefydliad i gyflawni ei amcanion’.

5 **Nid yw trefniadau'r Cyngor yn cynnwys nodi cyfleoedd neu broblemau presennol.** Mae risgiau a phroblemau[5] yn gofyn am wahanol ymatebion. Byddai mwy o eglurder o ran y gwahaniaeth yn helpu'r Cyngor i sicrhau ymateb effeithiol, gan roi rheolaethau ar waith i atal neu leihau'r tebygolrwydd y bydd risg yn codi, neu sefydlu mesurau lliniaru i sicrhau bod effaith problem cyn lleied â phosibl pan fydd wedi digwydd eisoes. Gall sefydlu dull corfforaethol i nodi cyfleoedd hefyd helpu'r Cyngor i ddarganfod dulliau rhagweithiol ac ataliol o ymdrin â risg ac arbedion cyllideb.

6 **Nid yw dull y Cyngor o sganio'r gorwel wedi'i ymwreiddio'n llawn.**[6] Er bod cyfarwyddwyr unigol yn sganio'r gorwel, canfuwyd gennym nad oes gan y Cyngor system strwythuredig ar gyfer casglu a dadansoddi'r wybodaeth honno. Mae sicrhau bod gan y Cyngor ddull cyson o nodi risgiau a chyfleoedd ar draws gorwel tymor hwy yn bwysig i helpu i sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud gydag effeithiau byrdymor a hirdymor mewn golwg.

7 **Yn gadarnhaol, mae arweinwyr uwch y Cyngor yn pwysleisio pwysigrwydd rheoli risgiau**. Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn trafod y gofrestr risg gorfforaethol yn rheolaidd ac mae Aelodau yn derbyn sesiynau briffio ar risgiau arwyddocaol sy'n wynebu'r Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd wedi darparu hyfforddiant i staff ac Aelodau i gynorthwyo eu dealltwriaeth o'u swyddogaethau. Mae Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd wedi derbyn hyfforddiant yn ymwneud â'u swyddogaeth sicrwydd o fewn y broses. Mae hyn yn bwysig gan fod diwylliant effeithiol o ran rheoli risg yn helpu i hyrwyddo proses nodi risgiau a phroblemau ragweithiol, yn annog proses gwneud penderfyniadau gyfrifol, ac yn meithrin dull rhagweithiol o liniaru risgiau.

## Rheoli risgiau

**Mae rheoli risgiau yn golygu asesu a mynd i'r afael â risgiau a phroblemau posibl a allai effeithio ar amcanion y Cyngor. Mae'n golygu gwerthuso tebygolrwydd ac effaith bosibl y risgiau a'r problemau a datblygu a gweithredu rheolaethau a chamau lliniaru effeithiol.**

8 **Ceir cyfleoedd i'r Cyngor gryfhau ei asesiad o risgiau**. Mae swyddogion yn mynd i'r afael â risgiau gan ddefnyddio fframwaith asesu a'u gwybodaeth broffesiynol, data gwasanaeth sydd ar gael a gwybodaeth ehangach. Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol hefyd yn adolygu ac yn herio risgiau bob chwarter. Ceir lle i'r Cyngor ddatblygu ymhellach i ddefnydd systematig o ddata i gryfhau ei asesiad o

[5] Digwyddiad posibl yn y dyfodol yw risg. Mae'n rhywbeth a allai ddigwydd ond nad yw wedi digwydd eto. Mae problem yn golygu problem sydd eisoes wedi codi neu'n digwydd ar hyn o bryd.

[6] Mae sganio'r gorwel yn barhaus ac yn ddynamig yn helpu'r sefydliad i ystyried senarios a allai gyflwyno risgiau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg.

risgiau. Byddai hyn yn cynorthwyo'r Cyngor i flaenoriaethu camau gweithredu a dyrannu adnoddau yn well.

9 **Nid yw parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg a'i lefelau goddefiant[7] wedi'u hymwreiddio'n llawn.** Diffiniodd y Cyngor ei barodrwydd i dderbyn risg a'i lefelau goddefiant yn 2022, ond nid yw adroddiad y gofrestr risg gorfforaethol yn cynnwys y categori parodrwydd i dderbyn risg na sgôr targed ar hyn o bryd. Mae hyn yn lleihau amlygrwydd sut mae risgiau unigol yn cyd-fynd â'r parodrwydd i'w derbyn gan y Cyngor. Bydd datganiadau o barodrwydd i dderbyn risg a goddefiant a ddeallir ar draws y Cyngor yn gosod paramedrau i unigolion weithredu. Gall hefyd gefnogi'r camau rheoli risg i gysoni cyflawniad amcanion strategol a rhoi mwy o sicrwydd.

10 **Nid yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer codi a gostwng lefelau risg wedi'u hymwreiddio'n llawn.** Mae pecyn cymorth a ffurflen asesu risg y Cyngor yn cymell swyddogion i ystyriaeth amrywiaeth o ffactorau wrth uwchgyfeirio risg i'r gofrestr risg gorfforaethol. Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, nid yw'r rhesymeg wedi'i chyflwyno'n eglur bob amser. Ochr yn ochr â'r ffaith nad yw'r Cyngor yn dibynnu ar sgôr trothwy i benderfynu a ddylid uwchgyfeirio risg, mae'n aml yn aneglur pam mae rhai risgiau wedi eu cynnwys. Mae hyn yn arbennig o wir o ran risgiau â sgoriau risg sy'n ymddangos yn isel – er enghraifft, roedd gan 13 o'r 45 o risgiau ar gofrestr risg gorfforaethol Chwarter 3 (2024-25) sgoriau risg o naw neu is.[8] Gall ymgorffori meini prawf a rhesymeg mwy eglur ar gyfer codi a gostwng lefelau risg helpu i gefnogi trefniadau mwy effeithlon ac effeithiol.

11 **Nid yw'r Cyngor yn dangos sut mae'n cymryd gwybodaeth risg gan bartner sefydliadau i ystyriaeth.** Mae'r pecyn cymorth rheoli risg yn amlygu y dylai meysydd gwasanaeth nodi a rheoli risgiau wrth ddarparu mewn partneriaethau neu gyda thrydydd partïon. Mae hyn yn bwysig gan fod risgiau yn aml yn cael effeithiau trawsbynciol sy'n ymestyn ar draws ffiniau sefydliadol. Gall y Cyngor adeiladu ar hyn trwy gynnal adolygiad mwy cyfannol o risgiau partner sefydliadau i ddeall sut y gallent effeithio ar ei amcanion ei hun. Er efallai fod cyfarwyddwyr unigol yn ymwybodol o effaith gweithredoedd partner sefydliadau ar y Cyngor, ni rennir yr wybodaeth hon yn systematig i hysbysu gweithgareddau rheoli risg.

12 **Nid yw dull y Cyngor yn dangos sut mae gwahanol feysydd yn cyfrannu at reoli risgiau trawsbynciol**. Ceir perchnogion risg penodol ar gyfer pob risg ar y gofrestr risg gorfforaethol. Mae hyn yn darparu perchnogaeth a chyfrifoldeb eglur am reoli'r risg yn effeithiol ar draws y Cyngor. Fodd bynnag, mae rhai risgiau yn drawsbynciol fel y targed sero net, seiberddiogelwch ac effaith costau byw. Nid yw'r Cyngor yn dangos yn llawn sut mae gwahanol rannau o'r Cyngor yn cyfrannu

[7] Diffinnir parodrwydd i dderbyn risg fel cyfanswm a math y risg y mae'r Cyngor yn barod i fynd ar ei drywydd, ei gadw neu ei gymryd. Lefelau goddefiant yw'r lefelau o risg y mae'r Cyngor yn ceisio gweithredu yn unol â nhw.

[8] Mae'r Cyngor yn defnyddio matrics 5 x 5 o debygolrwydd ac effaith. Felly, 25 yw'r sgôr uchaf.

at reoli'r risgiau trawsbynciol hyn. Gall dull integredig o reoli risg helpu'r Cyngor i nodi risgiau rhyng-gysylltiedig, agweddau agored i niwed posibl, a chyfleoedd i wneud penderfyniadau gwell a lliniaru risg.

## Monitro ac adrodd risgiau

**Mae monitro risg yn helpu i asesu effeithiolrwydd triniaeth risg y Cyngor. Dylai monitro gynorthwyo'r ddealltwriaeth o ba un a yw'r proffil risg yn newid a sut, ac i ba raddau y mae rheolaethau mewnol yn gweithredu fel y bwriadwyd i roi sicrwydd ynghylch rheoli risgiau i lefel dderbyniol o ran cyflawni amcanion sefydliadol.[9]**

**Mae adrodd gwybodaeth risg brydlon, gywir a pherthnasol yn bwysig i wella ansawdd proses gwneud penderfyniadau seiliedig ar risg effeithiol ac i gynorthwyo'r gwaith o reoli a goruchwylio trefniadau risg y Cyngor.**

13 **Mae'r Cyngor yn monitro ac yn adrodd ar reoli risg yn rheolaidd, ond nid yw camau risg bob amser yn CAMPUS[10].** Ceir monitro ac adrodd rheolaidd am risgiau i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Fodd bynnag, nid yw camau rheoli bob amser yn benodol ac nid oes amserlenni ar gyfer eu cwblhau. Mae diweddariadau naratif yn y gofrestr yn canolbwyntio'n bennaf ar ddisgrifio camau a gweithgarwch, yn hytrach na gwerthuso effeithiolrwydd camau rheoli. Gan gydnabod yr angen i gryfhau'r agwedd hon ar ei drefniadau, mae'r Cyngor yn treialu dull newydd o werthuso effeithiolrwydd camau rheoli mewn un gyfarwyddiaeth.

14 **Mae'r Cyngor yn adrodd mewn ffordd integredig ar reoli risg, asesu perfformiad a chyllideb**. Mae Tîm Rheoli Corfforaethol a Chabinet y Cyngor yn derbyn adroddiad arsylwadau perfformiad integredig sy'n cyflwyno data perfformiad ochr yn ochr â chyllid a gwybodaeth rheoli risg berthnasol. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad hwnnw ar gael i'r cyhoedd. Gall adrodd cyhoeddus integredig ar risg, perfformiad a chyllideb helpu pob Aelod Etholedig a'r cyhoedd i gael golwg gyfansawdd a strategol ar draws yr elfennau hyn.

[9] Llywodraeth y DU (2023) Y Llyfr Oren – Rheoli Risg – Egwyddorion a Chysyniadau

[10] CAMPUS – cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol.

## Adolygu ei drefniadau

**Mae adolygu trefniadau yn golygu gwerthuso trefniadau rheoli risg y Cyngor yn systematig i sicrhau eu bod yn bodloni eu hamcanion, yn cynnig gwerth am arian ac yn nodi meysydd i'w gwella.**

**Mae gwersi a ddysgwyd yn cyfeirio at y safbwyntiau a'r wybodaeth a gafwyd o weithredu trefniadau rheoli risg y Cyngor a sicrhau bod y rhain yn cael eu cofnodi a'u hadolygu i ysgogi gwelliant.**

15 **Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd cymysg o ran mynd i'r afael ag argymhellion o adolygiadau blaenorol o'i drefniadau rheoli risg.** Bu nifer o adolygiadau a gwerthusiadau o drefniadau rheoli risg yng Nghyngor Sir Caerfyrddin yn y blynyddoedd diwethaf:

- Fe wnaethom gyhoeddi ein hadolygiad cychwynnol o'i drefniadau yn 2019[11]. Cyflwynir ein hasesiad o gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn 2019 yn **Atodiad 3**.
- Cynhaliodd y Cyngor adolygiad mewnol o gynnydd yn 2021.
- Comisiynodd adolygiad allanol yn ystod hydref 2023 hefyd.
- Hefyd, mae gwasanaeth archwilio mewnol y Cyngor wedi adolygu rheolaeth risg yn 2021, ac eto yn 2023.

Mae pob un o'r adolygiadau hyn wedi gwneud argymhellion i'r Cyngor i gryfhau ei drefniadau rheoli risg. Mae'r Cyngor wedi dechrau mynd i'r afael â llawer o'r meysydd hyn ond nid yw wedi mynd i'r afael yn llawn â'r holl argymhellion a'u hymgorffori eto. Er enghraifft, mae'r broses o nodi a geirio risgiau yn dal i fod yn anghyson, ac nid yw mesurau rheoli yn CAMPUS. Mae'r Cyngor hefyd wedi nodi angen i gryfhau effaith y gyllideb rheoli risg[12] gan ddefnyddio data cyn ac ôl-ymyrraeth mwy manwl. Ar adeg ein harchwiliad, nid oedd hyn wedi digwydd.

16 **Nid yw'r Cyngor yn rhannu dysgu fel mater o drefn i wella ei drefniadau rheoli risg**. Er bod ganddo grŵp llywio rheoli risg ar waith, nid oes gan y grŵp hwn swyddogaeth o ran rhannu dysgu ar draws y Cyngor. Heb ddysgu gwersi a mynd i'r afael yn llawn ag argymhellion o adolygiadau o'i drefniadau, gallai'r Cyngor fethu'r cyfle i ddysgu, i gynorthwyo penderfyniadau mwy cytbwys ac i wella rheolaeth risg ar gyfer y dyfodol.

[11] Archwilio Cymru (2019) Cyngor Sir Caerfyrddin – Arolwg o Drefniadau Rheoli Risg

[12] Mae'r RSMG yn goruchwylio cyllideb rheoli risg bwrpasol y bwriedir iddi fuddsoddi mewn meysydd i 'leihau'r perygl o hawliadau neu ymgyfreitha drud'.

# Ein hargymhellion i'r Cyngor

**Arddangosyn 1: ein hargymhellion i'r Cyngor**

Mae ein hargymhellion blaenorol ar reoli risg bellach wedi'u disodli gan y pedwar argymhelliad yn yr adroddiad hwn.

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| **A1** | Mae'r adroddiad hwn yn amlygu meysydd i'w gwella yn **nhrefniadau'r Cyngor ar gyfer nodi risgiau a chyfleoedd corfforaethol.** I fynd i'r afael â hyn dylai'r Cyngor:<br>1.1 ddiffinio risgiau yn eglur, fel ei bod yn eglur beth yw'r risgiau y mae'r Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â nhw a pham (paragraff 3); ac<br>1.2 cryfhau ei drefniadau i gasglu a rhannu gwybodaeth sganio'r gorwel i sicrhau ei fod yn mabwysiadu dull digon hirdymor ac ataliol o reoli risg (paragraff 6). |
| **A2** | Mae'r adroddiad hwn yn amlygu meysydd i'w gwella yn **nhrefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli risgiau corfforaethol.** I fynd i'r afael â hyn dylai'r Cyngor:<br>2.1 gryfhau ei ddefnydd o ddata i asesu arwyddocâd yr holl risgiau a nodir (paragraff 8);<br>2.2 cyflwyno'r categori parodrwydd i dderbyn risg a'r sgôr targed ar gyfer pob risg gorfforaethol fel bod swyddogion ac Aelodau yn deall defnydd a gwerth parodrwydd i dderbyn risg a goddefiant (paragraff 9);<br>2.3 nodi'n eglur y rhesymeg ar gyfer codi a gostwng lefelau risgiau i'r gofrestr risg gorfforaethol ac oddi arni (paragraff 10); a<br>2.4 dangos ei ddealltwriaeth o sut mae risgiau partneriaid yn effeithio ar y Cyngor (Paragraff 11). |
| **A3** | Mae'r adroddiad hwn yn amlygu meysydd i'w gwella yn **nhrefniadau'r Cyngor i fonitro ac adrodd risgiau**. I fynd i'r afael â hyn dylai'r Cyngor:<br>3.1 adolygu rheolaethau risg i sicrhau bod y rheini'n gymesur CAMPUS, i gynorthwyo trosolwg effeithiol o'u heffaith ar leihau risgiau (paragraff 13);<br>3.2 datblygu dull o adrodd yn gyhoeddus ar reoli risg, perfformiad a monitro'r gyllideb fel bod Aelodau Etholedig a'r cyhoedd yn cael golwg gyfansawdd a strategol (paragraff 14). |

**Argymhellion**

| | |
|---|---|
| **A4** | Mae'r adroddiad hwn yn amlygu meysydd i'w gwella yn null y Cyngor o **adolygu ei drefniadau** ac ymgorffori gwelliannau yn ei ddull rheoli risg. I fynd i'r afael â hyn, dylai'r Cyngor gynnig diweddariad cynhwysfawr i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y cynnydd a wnaed hyd yma i ymgorffori gwelliannau yn ei ddull rheoli risg (gweler paragraff 15). Dylai hwn nodi ac esbonio camau sydd heb eu cymryd, a nodi'r amserlenni ar gyfer cyflawni'r rheini. |

# Atodiad 1

## Cwmpas a dulliau

### Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn oedd:

- helpu i gyflawni dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol i fodloni ei hun bod y Cyngor wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### Sail gyfreithiol

Fe wnaethom gynnal yr archwiliad hwn o dan y dyletswyddau sydd wedi'u cynnwys yn Adran 17 2(d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliwyd yr archwiliad gennym

Cynhaliwyd yr archwiliad hwn gennym rhwng Chwefror a Mai 2025, trwy:

- adolygu dogfennau perthnasol, er enghraifft, papurau strategaeth rheoli risg, canllawiau i Aelodau, a deunyddiau hyfforddi;
- arsylwi sampl o gyfarfodydd y pwyllgor llywodraethu ac archwilio; a
- chynnal cyfweliadau gyda swyddogion allweddol a'r Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb am reoli risg.

Mae ein canfyddiadau wedi'u cyfyngu i'n dadansoddiad o'r wybodaeth uchod.

# Atodiad 2

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

**Cwestiwn cyffredinol:** A oes gan y Cyngor drefniadau rheoli risg priodol sy'n cynorthwyo'r gwaith o gyflawni ei amcanion strategol?

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| 1. A oes gan y Cyngor fframwaith rheoli risg eglur wedi'i gefnogi gan ddiwylliant rheoli risg effeithiol? | 1.1 A oes gan y Cyngor fframwaith rheoli risg cynhwysfawr sy'n cyd-fynd â'i amcanion strategol? | • Mae fframwaith rheoli risg y Cyngor yn nodi:<br>– Swyddogaethau a chyfrifoldebau<br>– Gofynion adrodd a monitro<br>– Trefniadau llywodraethu<br>– Amserlen ar gyfer diweddariadau i'r gofrestr risg<br>– Y broses codi a gostwng lefelau risg; a<br>– Yn gyfredol (hy ddim y tu hwnt i'w ddyddiad adolygu penodedig) |
| | 1.2 A oes gan y Cyngor ddiwylliant rheoli risg effeithiol? | • Mae arweinwyr uwch yn ysgogi pwyslais ar bwysigrwydd rheoli risg yn y Cyngor.<br>• Mae'r Cyngor yn ystyried rheoli risg fel rhan annatod o sut mae'r Cyngor yn gweithredu.<br>• Mae arweinwyr uwch yn hyrwyddo diwylliant sy'n annog deialog agored ynghylch risg.<br>• Mae trefniadau llywodraethu a goruchwylio'r Cyngor yn cynnwys rheoli risg.<br>• Mae aelodau a swyddogion wedi derbyn hyfforddiant mewn rheolaeth risg sy'n berthnasol i'w swyddi.<br>• Mae gan swyddogion ac aelodau ddealltwriaeth eglur o'u swyddogaeth o fewn y fframwaith rheoli risg.<br>• Mae diwylliant y Cyngor yn cefnogi'r broses o nodi a rheoli risgiau yn effeithiol. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
| --- | --- | --- |
| | 1.3 A yw'r Cyngor wedi diffinio ei lefelau parodrwydd i dderbyn risg a goddefiant yn eglur? | • Mae'r Cyngor yn cyfleu'n eglur ei lefelau o barodrwydd i dderbyn risg a goddefiant.<br>• Mae parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg yn cyd-fynd â'i uchelgeisiau strategol.<br>• Mae'r Cyngor yn seilio ei lefelau parodrwydd i dderbyn risg a goddefiant ar wybodaeth berthnasol a chywir.<br>• Mae'r Cyngor yn adolygu ei barodrwydd i dderbyn risg i adlewyrchu newidiadau perthnasol ac arwyddocaol i'r amgylchedd mewnol ac allanol. |
| | 1.4 A yw'r Cyngor yn mabwysiadu dull hirdymor o reoli risg? | • Mae'r Cyngor yn sganio'r gorwel i nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg a bygythiadau yn y dyfodol, yn ogystal â chyfleoedd.<br>• Gall y Cyngor ddangos sut mae ei waith sganio'r gorwel yn dylanwadu ar ei reolaeth o risg.<br>• Mae'r Cyngor yn mabwysiadu dull ataliol sy'n canolbwyntio ar y dyfodol o ymdrin â risg. |
| 2. A yw'r Cyngor yn nodi, rheoli, monitro a herio ei risgiau yn effeithiol? | 2.1 A yw'r Cyngor yn nodi ac yn asesu effeithiau risg yn drylwyr? | • Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i asesu a gwerthuso risg (dadansoddeg risg, deallusrwydd artiffisial, modelu risg, dadansoddiad senario a sensitifrwydd, a phrofion straen).<br>• Mae'r Cyngor yn defnyddio gwybodaeth/data dibynadwy i asesu maint, tebygolrwydd ac effaith bosibl risgiau.<br>• Mae risgiau yn adlewyrchu risgiau arwyddocaol i gyflawni'r amcanion llesiant a nodau strategol |
| | 2.2 A oes gan y Cyngor ddull integredig o reoli risg? | • Mae'r Cyngor yn mapio rhyngddibyniaethau a chysylltiadau ar gyfer risgiau trawsbynciol.<br>• Mae'r Cyngor yn nodi ac yn asesu effaith gyfunol risg ar draws y sefydliad.<br>• Mae'r Cyngor yn nodi gwybodaeth risg gan bartneriaid darparu allweddol a sefydliadau sector cyhoeddus eraill ac yn ystyried sut y gallai'r risgiau hyn effeithio ei allu i gyflawni ei amcanion strategol a rhai ei bartneriaid. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
| --- | --- | --- |
| | | • Mae’r Cyngor yn asesu amrywiaeth o effeithiau a chanlyniadau ar gyfer risgiau o fewn rheolaeth y Cyngor a’r tu allan i’w reolaeth. |
| | 2.3 A yw trefniadau’r Cyngor yn rhoi sicrwydd bod camau digonol yn cael eu cymryd i fynd i’r afael â risgiau? | • Ceir perchnogaeth ac atebolrwydd eglur o ran risgiau.<br>• Mae ymatebion a chamau risg yn eglur ac yn cyd-fynd â pharodrwydd y Cyngor i dderbyn risg a’i oddefiant, ac wedi’u costio.<br>• Caiff camau risg eu diweddaru’n rheolaidd.<br>• Caiff camau lliniaru eu hasesu ar gyfer eu heffeithiolrwydd o ran newid sgoriau risg.<br>• Ceir meini prawf eglur ar gyfer codi/gostwng lefelau risg a thrywydd archwilio eglur. |
| | 2.4 A yw’r Cyngor yn monitro ac yn adrodd ar reoli risg yn rheolaidd? | • Mae’r Cyngor yn defnyddio sgoriau/asesiadau ystyrlon i gefnogi’r broses o fonitro ac adrodd risgiau.<br>• Mae cofrestrau risg yn gynhwysfawr ac yn gyfredol.<br>• Gall y Cyngor gyfleu’n eglur pam mae risgiau ar y gofrestr neu lle nad ydynt: mae hyn wedi’i esbonio a’i gofnodi’n eglur.<br>• Mae arweinwyr uwch yn adolygu risgiau yn rheolaidd ac yn brydlon<br>• Mae aelodau etholedig yn derbyn adroddiadau risg mewn ffordd brydlon, dryloyw a chywir.<br>• Mae’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnig trosolwg a her effeithiol o’r wybodaeth risg. |
| 3. A oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i werthuso effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli risg? | 3.1 A yw’r Cyngor yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli risg fel mater o drefn? | • Mae’r Cyngor yn gwerthuso ei drefniadau rheoli risg ac yn nodi bylchau a meysydd i’w datblygu, gan gynnwys meincnodi yn erbyn arferion sefydliadau eraill.<br>• Mae’r Cyngor yn ystyried yn weithredol gwerth am arian ei drefniadau rheoli risg. |
| | 3.2 A yw’r Cyngor yn rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd fel mater o dref i wella ei drefniadau rheoli risg? | • Mae’r Cyngor yn nodi ac yn rhannu gwersi a ddysgwyd ac arferion da o ran rheoli risg ar draws y Cyngor. |

# Atodiad 3

## Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor yn erbyn argymhellion 2019

| Argymhellion 2019 | Dyfarniad Archwilio Cymru yn seiliedig ar dystiolaeth |
|---|---|
| 1. Dylai'r Cyngor ddatblygu gweithdrefnau ac arweiniad addas i fod yn sail i'w strategaeth rheoli risg i sicrhau bod rheoli risg wedi ei ymgorffori'n gyson drwy'r sefydliad cyfan. | Mae gan y Cyngor fframwaith eglur bellach, gan gynnwys strategaeth a phecyn cymorth. Fodd bynnag, ar adeg ein hadolygiad roedd y strategaeth wedi dod i ben ac roedd strategaeth ddiwygiedig yn cael ei datblygu i'w mabwysiadu yn ddiweddarach yn 2025 (gweler **paragraff 1**). Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflwyno un system feddalwedd rheoli risg ac wedi darparu canllawiau ategol i staff sy'n defnyddio'r system. Mae'r Cyngor yn rhoi'r trefniadau hyn ar waith ar draws gweithgareddau rheoli gwasanaethau a risg corfforaethol. |
| 2. Dylai'r Cyngor ddiffinio'i awydd corfforaethol am risg i sicrhau ei fod yn rheoli risgiau a chyfleoedd yn effeithiol. | Mae'r Cyngor wedi diffinio ei barodrwydd corfforaethol i dderbyn risg, ond mae hyn yn cael effaith gyfyngedig ar ei reolaeth o risgiau a chyfleoedd hyd yma (gweler **paragraff 9**). |
| 3. Dylai'r Cyngor alinio ymhellach ei drefniadau rheoli risg â'i drefniadau rheoli perfformiad. | Mae trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor yn cymryd rheolaeth risg i ystyriaeth. Dangosir hyn drwy'r adroddiad arsylwadau y mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn ei dderbyn bob chwarter ac mae'n cynnwys gwybodaeth rheoli risg. |

| Argymhellion 2019 | Dyfarniad Archwilio Cymru yn seiliedig ar dystiolaeth |
|---|---|
| 4. Dylai'r Cyngor arolygu ac egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau:<br>• Rheolwyr<br>• Staff<br>• Eiriolwyr Risg<br>• Y Grŵp Llywio Rheoli Risg yn ei drefniadau rheoli risg | Mae'r Cyngor wedi adolygu swyddogaethau a chyfrifoldebau pob un o'r grwpiau hyn ac mae swyddogaethau yn eglur bellach (gweler **paragraff 1**). |
| 5. Dylai'r Cyngor:<br>• egluro'r system y mae'n ei defnyddio i nodi a chadw risgiau er mwyn sicrhau dull cyson drwy'r sefydliad cyfan; ac<br>• arolygu'r wybodaeth a gofnodir ar gofrestri risg drwy'r sefydliad cyfan er mwyn sicrhau bod y wybodaeth wedi'i diweddaru, yn gyflawn ac yn ddigon manwl i sicrhau y gall risgiau gael eu rheoli'n briodol. | Mae'r Cyngor wedi cyflwyno un system feddalwedd i nodi risgiau. Mae gwybodaeth yn gyfredol, ond mae geiriad risgiau yn aml yn anghyson â pholisi'r Cyngor (gweler **paragraff 3**) ac nid yw camau rheoli a lliniaru yn CAMPUS (gweler **paragraff 13**). Gallai hyn gyfyngu gallu'r Cyngor i reoli risgiau yn effeithiol. |

| Argymhellion 2019 | Dyfarniad Archwilio Cymru yn seiliedig ar dystiolaeth |
|---|---|
| 6. Dylai'r Cyngor wella effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli risg drwy:<br>• hyfforddi staff;<br>• chwilio am sicrwydd yn rheolaidd am effeithiolrwydd pob agwedd ar ei drefniadau a gwerthuso sail y darganfyddiadau; ac<br>• ymgorffori proses ar gyfer nodi gwersi a ddysgwyd a rhannu arfer da drwy'r sefydliad cyfan. | Mae'r Cyngor wedi darparu hyfforddiant i staff perthnasol ac mae ganddo hyrwyddwyr risg ar draws cyfarwyddiaethau (gweler **paragraff 7**). Fe wnaeth hefyd gomisiynu adolygiad allanol o'i drefniadau ddiwedd 2023, ond mae cynnydd yn ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad hwnnw wedi bod yn gymysg (gweler **paragraff 15**). Nid yw'r Cyngor wedi datblygu trefniant ar gyfer nodi gwersi a ddysgwyd eto (gweler **paragraff 16**). |

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.